

Cwmni

Papur Sir Caerffili: Cwm Aber, Ebwy, Rhymni a Sirhywi

Rhifyn 217

Pris 80c

Mis Tachwedd 2019



Gwelwyd yn y Gwyndy

PWYLLGOR A SWYDDOGION

Cadeirydd: Robert Dutt

Ysgrifennydd Cofnodion: Ann Lewis



*Ariennir yn
rhannol gan
Lywodraeth
Cymru*

Trysorydd: Eyron Thomas e.thomas119@btinternet.com

Golygydd: Ben Jones benamary2000@yahoo.co.uk 02920 862428 07891916046

Ysgrifennydd: Marian Fairclough faircloughmarian@gmail.com 02920 885151

Cynorthwy-ydd: Jan Penney

Dosbarthu a Golygydd Llundain: Mary Jones

Y Pwyllgor: Eirlys Thomas, Gareth W. Williams, Dilys Williams,

Ieuenctid: Morgan

Roberts, Swyddog Prosiect Llais,

Hysbysebu: Bethan Jones, Menter Iaith

Gweplyfr/ Facebook:  Papur Bro Cwmni

Gwefan: menter.aerffili.cymru/ 

e-bost: Golygydd@papurecwmni.cymru / benamary2000@yahoo.co.uk

Cedwir yr hawl i gwtogi neu newid erthyglau neu luniau yn unol â gofynion golygyddol.

Argraffu Tower Print, Uned 12a, Ystâd Ddiwydiannol Tŷ Bedwas, Caerffili, CF83 8DW

“Dosbarth Wyn”

Byddwn yn cynnal chwe sesiwn lenyddol eleni eto. Y tiwtor eto fydd yr Athro Wyn James a'r man cyfarfod, festri capel Tonyfelin, Caerffili. Bydd pob sesiwn yn dechrau am 7:00 ac yn gorffen tua 9:00 o'r gloch.

Hydref 22ain: Cerddi'r Gadair. Awdl Gorwelion, T. James Jones,
Tachwedd 12fed: Cerddi'r Goron. Cilfachau, Guto Dafydd,
Rhagfyr 10fed: Barddoniaeth - yr Englyn, Telyneg ac ati
Ionawr 14eg: Barddoniaeth - y Cywydd, Soned ac ati
Chwefror 11eg: Llenyddiaeth - Y Stori Fer, Ysgrif, Llên Micro,
Mawrth 10fed: Y Fedal Ryddiaith – Ingrid, Rhiannon Ifans,
Ebrill 11eg: Gwobr Goffa Daniel Owen – Carafanio, Guto Dafydd,



Dewch i ymuno â ni gan fod croeso cynnes yn eich disgwyl.

Oedfaon Capeli Mis Tachwedd

Bedyddwyr Tonyfelin

3ydd 10.30 a 6.00: Parch Milton Jenkins

10fed 10.30 a 6.00 Marc John Williams

17eg Yn Bethel trwy'r dydd

24ain 10.30 a 6.00: Mr Mansel Jones

Penuel, Rhymni

10fed Mr R. Lewis

24ain Rev. M. Marsden

Annibynwyr Bethel

3ydd 10.30 Sul y Chwirydd

10 fed 10.30: Dr John Gwynfor Jones

17 eg Y Parch Robert Owen Griffiths (Cymun)

24ain 10.30 a 6.00 Gyda Tonyfelin

Capel y Groeswen

3:00 p.m.

10fed Rememberance Service

Mr Patrick Thomas

Mae Yna Obaith – Ganrif Ymlaen

Ar Fai'r 19^{eg} mewn cyfarfod gorlawn yn Neuadd Frenhinol Albert, lansiodd dwy chwaer o Sir Amwythig, Eglantyne Jebb a Dorothy Buxton, Gronfa Achub y Plant yn swyddogol.

Roedden nhw wedi'u cythruddo gan ddelweddau roedden nhw wedi'u gweld o blant yn yr Almaen ac Awstria ddiwedd y Rhyfel Byd Cyntaf. Siaradodd Eglantyne â'r fath angerdd fel iddi daro cord gyda'r dorf. Dywedodd, "Oes bosib ei bod hi'n amhosibl i ni, yn fodau dynol cyffredin, allu gwylio plant yn marw o newyn heb wneud unrhyw ymdrech i'w hachub."

Aeth yn ei blaen i amddiffyn hawliau plant – pwy bynnag y bônt, lle bynnag y maen nhw – drwy gyfansoddi 'Hawliau Plant' yn 1924. Yn ddiweddarach bu hwn yn fodd i ysbrydoli Cynhadledd ar Hawliau Plant yn 1989.


Heddiw, mae Achub y Plant yn gweithio mewn 120 o wledydd o gwmpas y byd i sicrhau fod plant yn cael dechreuad iach i'w bywydau, hawl i addysg a bod yn ddiogel. Mae Achub y Plant yn gwneud beth bynnag sydd ei angen i wneud yn siŵr fod plant yn cael yr hyn sydd arnyn nhw ei angen - bob dydd, yn ogystal ag ar adegau pan fo argyfwng.

Heddiw, mae dros 200,000 o blant yng Nghymru yn byw mewn tlogi a dros draean ohonyn nhw yn syrthio y tu ôl i'w cyfoedion mwy cyfoethog cyn iddyn nhw ddechrau yn yr ysgol. Dydy rhai o'r rhain **byth** yn dal i fyny. Dydyn nhw **byth** yn cyrraedd eu potensial llawn am na chân nhw'r cymorth sydd arnyn nhw ei angen yn ystod eu blynyddoedd cynnar hanfodol.

Mor bell yn ôl a'r 1930au, yn ystod y Dirwasgiad Mawr, camodd Achub y Plant i mewn i roi i rieni a'u plant y gefnogaeth oedd arnyn nhw ei hangen i fod yn ffyniannus. Sefydlodd yr elusen y feithrinfa awyr-agored gyntaf un yng nghymunedau glofaol Dowlais yn 1933 ac yna ym Mrynmawr yn 1934 i gynorthwyo rhai o'r teuluoedd tlotaf. Gwnaethon nhw hefyd ddarparu llaeth yn rhad ac am ddim i blant ysgol yn Ne Cymru, nifer o flynyddoedd cyn i hyn ddod yn bolisi'r llywodraeth.

Sefydlwyd cangen Caerffili ar y 26^{ain} o Fawrth 1962. Y Cadeirydd cyntaf oedd y Cynghorydd William Williams, y Trysorydd Mrs Alice Tilley a'r Ysgrifennydd Mrs Brinley Jenkins, gyda 40 o aelodau. Roedd mwyaf-rif yr aelodau'r adeg honno yn mynychu Capel Bethel.

Yr adeg honno agorwyd pob cyfarfod â gweddi. Codwyd y rhan fwyaf o'r arian drwy gasglu o ddrws i ddrws. Cynhaliwyd y bore coffi cyntaf yn Neuadd y Parc ar Lôn y Parc gyda'r 244 o docynnau a werthwyd yn codi £35.00! Parhaodd y gangen yn gryf gyda newidiadau i'r swyddogion a digwyddiadau fel Noson Ffagots a Phys, sioeau ffasiwn a nosweithiau "*Hats and Chats*" gyda'r Anrhydeddus Mrs Legg Bourke. Roedd yna hefyd Arwerthiant Warws Blyneddol a Chinio Nadolig Blyneddol yng Nghlwb Golff Caerffili.



Ein cyflawniad mwyaf oedd yn 2009 pan oedd ein Cadeirydd Anne Collins hefyd yn Gadeirydd Cyngor Bwrdeistref Caerffili. Codwyd £16,833 ar gyfer Achub y Plant am mai hwn oedd ein helusen am y flwyddyn honno. Defnyddiwyd yr arian ar gyfer cynllun peilot FAST (Teuluoedd ac Ysgolion gyda'i gilydd). Ymledodd hwn i Brydain gyfan ac ond yn ddiweddar y daeth Cyswllt Teuluol yn ei le. Mae nifer o brosiectau Cyswllt Teuluol yn cymryd lle yn Ne Cymru, gyda phump yma yng Nghaerffili.

13 o aelodau sydd yn y Gangen ar hyn o bryd a chynhaliwn ddigwyddiadau gydol y flwyddyn. Ein dull pennaf ar gyfer codi arian yw drwy gynnal cwis, ddwywaith y flwyddyn.

Efallai bydd gan ein darllenwyr ddiddordeb mewn gwybod fod cyngerdd Canmlwyddiant yn Eglwys Gadeiriol Llandaf ar y 7^{fed} o Dachwedd. Mae'r cyngerdd yn dechrau am 7:00 o'r gloch yr hwyr a'r tocynnau sy'n £20.00 yr un ar gael ar www.eventbrite.co.uk/e/save-the-children-tickets

Bydd Cangen Caerffili yn cynnal Noson Gwin a Chaws yn y Ganolfan Dwristiaeth yng Nghaerffili ar y 13eg o Ragfyr. Tocynnau yn £10.00

Os oes angen mwy o wybodaeth am gangen Caerffili, wnewch chi gysylltu ag Ann Jackson ar 029 20864979.

Ann Jackson

Brethyn Bytholwyrdd

Cyfarfu Cangen Cwm Rhymni o Ferched y Wawr yng Nghapel Bethel Caerffili nos Fercher, Hydref 16 - cyfarfod ffurfiol cyntaf y tymor. Da iawn oedd gweld cynifer yno – a chael gwybod hefyd fod rhai o'r ffyddloniaid i ffwrdd yn mwynhau pelydrau olaf haul yr haf. Ond collon nhw noson fythgofiadwy yng nghwmni Branwen Roberts a Gwyneth Davies, cadeirydd y noson!

Mae Branwen yn arbenigo ym maes cadwraeth tecstilau, ac wedi gweithio am flynyddoedd ym mhalas Hampton Court, ar gyrion Llundain, lle mae rhai o brif drysorau'r goron i'w gweld. Mae'r tlysau brenhinol dan glo yn Nhŵr Llundain, ond mae rhai o dapestriau Hampton Court yn gyfwerth â'r tlysau hynny – ac yn dal i hongian yn y palas ers dyddiau Harri VIII.

Gwnaethpwyd y tapestriau ym Mrwsel, lle roedd pencampwyr gwehyddion Ewrop yn gweithio mewn sidan ac edafedd arian ac aur. Er bod y lliwiau gwreiddiol wedi pylu dros y canrifoedd, dangosodd Branwen i ni enghreifftiau o'r lliwiau cyfoethog gwreiddiol, sydd i'w canfod ar gefn y tapestri.

Rhan o waith Branwen a'r tîm o arbenigwyr sy'n gofalu am decstilau'r casgliadau brenhinol oedd glanhau a thrwsio'r tapestriau brau a gwerthfawr hyn. Tipyn o dasg yn wir, o gofio maint pob tapestri (482.0 cm × 770.0 cm sef 189.76 m × 303.15modfedd – *tua maint talcen tŷ cyffredin*), eu hoedran, eu cyflwr bregus – a'u gwerth.

Dangosodd Branwen i ni y broses o symud tapestri o'i le (rhaid defnyddio sgaffaldau), ei roi i orwedd ar liain addas ar y llawr, ei rolïo'n araf a thyner – a'i gario at y bath o ddŵr lle mae'n cael ei olchi â llaw.

Rhyfedd oedd gweld hanner dwsin o bobl yn gorwedd wedyn mewn peiriant symudol anferth oedd yn eu cludo'n araf dros y tapestri er mwyn iddynt wasgu dŵr a sebon mewn i'r defnydd. Yna, rhaid defnyddio dŵr glân i gael gwared â'r sebon i gyd cyn dechrau sychu'r tapestri, ei drwsio a'i hongian yn ôl yn ei le – yn edrych yn well o lawer nawr ar ôl cael ei fath cyntaf ers 500 mlynedd! Mae'r holl broses yn cymryd blwyddyn gyfan i'w gwblhau.

Ar ddiwedd ei chyflwyniad soniodd Branwen am ddilledyn brenhinol arall sydd newydd gyrraedd casgliad Hampton Court – darn o wisg Elisabeth I, sef defnydd y sgert sidan brodiog hardd sydd i'w gweld yn yr enwog Bortread yr Enfys o'r frenhines. Am ganrifoedd defnyddid hwn i addurno allor eglwys Bacton, swydd Henffordd, cartref Blanche Parry, meistres gwisgoedd a thlysau Elisabeth. Cymraes oedd Blanche a dreuliodd ei hoes yn gwasanaethu'r frenhines. Mae'n bur debyg iddi ddysgu Cymraeg i'r frenhines. Credir i Elisabeth roi'r dilledyn gwerthfawr hwn i'r eglwys er cof am ei gwasanaethyddes ffyddlon a fu'n gyfaill mynwesol iddi hefyd yn ôl pob tystiolaeth.

Mae nifer o aelodau'r gangen yn hoff o winio, a phob un ohonom yn gwybod o brofiad mor anodd yw gofalu am decstilau. Does dim rhyfedd felly i ni wrando'n astud ar hanesion difyr a thrawiadol Branwen, a holi llu o gwestiynau iddi ar ddiwedd ei sgwrs!.



Daeth yr awdur Ray Evans i annerch Cylch Llenyddol Bro Elyrch wedi iddi ennill Medal Ryddiaith 1986 gyda'i nofel wych, "Y Llyffant". Pan ofynnwyd iddi lle cafodd yr ysbrydoliaeth i ysgrifennu'r nofel, dywedodd mai un o'i chyfrinachau oedd ysgrifennu atgofion, a bod y broses o ysgrifennu fel hyn yn fodd o ennyn mwy eto o atgofion. A dyma fu fy mhrofiad innau. Ar adeg pan mae dyn yn mynd yn anghofus, gwelwyd fod nodi atgofion yn ffordd o adfer y cof. Ac felly, wedi bwrw ati i ysgrifennu un erthygl am ymadroddion tafodieithol daeth mwy..... a mwy.... a mwy i'r cof!

Yn ychwanegol i hyn, cyfarfûm â chyfaill sy'n enedigol o Gwmtwrch. Doedd ei wraig ddim gyda fe a finnau'n holi lle'r oedd hi. Yr ateb oedd ei bod hi wedi mynd i "ercyd" y papur newydd. Roedd hyn yn f'atgoffa am gyfres o eiriau tebyg. Dyw hi ddim yn anodd dychmygu sgwrs debyg i hyn mewn cartref yng Nghwmtwrch - *Upper* neu *Lower*:

"Siapa dy stwmps (*brysia*) i daclu (*gwisgo*) ac wedyn cerffwl pelt (*ar frys*) i ercyd (*nôl*) y papur. Cer nawr cyn bod ti'n sythu (*oeri*). A paid 'neud y cleme (*tynnu wyneb*) 'na, na whilia (*siarad*) mor ecer (*cheeky*) pan bo fi'n gofyn i ti 'neud rhywbeth, achos alla i shiffto shew (*ymdopi'n iawn*) i 'neud 'ny'n 'unan."



Finnau'n gofyn i Eic Davies sut oedd dweud "streitno" yn y Gymraeg. A'r ateb yn dod mewn ffurf cwestiwn: "Pan wyt ti'n troi'r car i mewn 'sha'r garej, beth ma dy dad yn gweud wrtho ti i 'neud nesa." "Cymhwysa hi," oedd f'ateb. "Wel, 'na

ti, 'te." Ond eto, pan gyhoeddwyd y Cwricwlwm Cenedlaethol bondigrybyll, cafodd athrawon eu cyfarwyddo i gymhwyso (*apply*) mathemateg. Ac yn ôl Cymraeg Byw ("byw" o gythrel !!) sythu yw gwneud rhywbeth yn "syth". Ond i ni yng Nghwm Tawe mae "sythu" yn golygu "oeri".

Cofiaf fynd â'n wyjen (*cariad*), oedd yn dysgu Cymraeg, am dro gyda 'mam a'n nhad pan ddaeth rhywun oedd 'nhad yn ei adnabod atom. Cyfarchodd y cyfaill fy nhad â'r geiriau, "Wel, Dai, ffor' ma hi'n ei gweud hi?" a'n 'nhad yn ateb, "Lled dda Wil, siwd mae'n palu 'da ti?" A'n wyjen yn gofyn i fi beth a ddywedwyd a finnau'n gweud taw dweud helo wrth ei gilydd oedden nhw. Ac meddai hithau'n ddigon hunangyfiawn, "But you told me that hello was Sut mae or Siwd mae....." Sut oedd ateb?

Bydden ni wedi gorfod ymdopi â mwy o broblem petai'r naill wedi holi'r llall a oedd e'n dal i ysmygu. Byddai'r cwestiwn yn swnio fel hyn: "Wyt ti'n tynnu ambell i fwgyn nawr?" A gyda llaw os taw Mary oedd y "wyjen", fi wedyn oedd y "sboner".

Wrth gyfeirio at rywbeth oedd yn fawr iawn, dywedwyd ei fod "yn ddigon mawr i alw chi arno fe". Os oedd rhywbeth yn du hwnt o fach, y ddau ddywediad oedd naill ai ei fod "fel tosyn ar dîn eliffant" neu "fel pisho dryw bach yn Llyn y Bala". Rwy'n tybied taw (*mai*) ein ffrindiau o'r Gogledd piau hwnna.



Dywedwyd am un oedd yn ddieithr i'r gwirionedd ei fod yn "Gweud celwydd fel ci yn cerdded" a beth sydd yn fwy llyfn, rhugl a diymdrech na chi yn cerdded? Os oedd rhywun mewn hwyliau drwg roedd "croen ei dîn ar ei dalcen", ymadrodd sy'n dal yn fyw yn y Rhondda ond fel "the skin of his arse on his forehead!"

Pan mae rhywbeth yn eithriadol o hurt neu bron yn amhosib ei gyflawni, dywedwyd: "Ma sens miwn b'yta potsh â rhaw, ond d'os dim sens yn hwnna" neu "Ma sens mewn b'yta jeli â phinshwrn!". Yn ardal Llambled y fersiwn oedd: "Ma sens miwn carthu dan gloc cwcw". Oes 'na fersiwn debyg yn eich ardal chi? Rhowch wybod.

Ac i ennyn mwy eto o ymateb i'r gyfres hon o ymadroddion, pwy sy'n gyfarwydd â'r geiriau hyn:

enllyn	crwmp	clwc	rhython
sgymren	ffasg	sgrabyn	

Atebion, os gwelwch yn dda, ar gerdyn post.Bydd unrhyw ganfasio, cewch eich diarddel.

Gyrrwch yr atebion i'r uchod, neu unrhyw ddywediadau lliwgar neu dermau gafaalgarg at y golygydd ar benamary2000@yahoo.co Gellir eu cyhoeddi'n ddienw, pe dymuner - A pwy a wŷr na ellid wedyn ddod o hyd i ddigon o ddeunydd ar gyfer "'Wnco Man 'Co – 5!!!! O, na !!



“LLANFRECHFA”, 1964 - a dyma fws Cyngor Casnewydd yn dod lan Heol Ponthir. Fy niwrnod cyntaf yn y “Monmouthshire Training College”. Roeddwn i a chriw o ffrindiau newydd sbon wedi dod mas i weld rhyfeddodau Caerllion neu “C’lîon”, fel y dywedai trigolion Newp. Mon. “LLANFRECHFA” â’r anghenfil gwyrdd yn dal i agosáu â chwmwl o fwg du yn ei ganlyn. Roedd bysus adref yn goch ac yn lân â *London Transport* ar eu hochr a “Tooting”, “Croydon” neu “Wimbledon” ar y blaen. Geiriau dealladwy, cyfarwydd a chartrefol. Beth ar wyneb y ddaear oedd y busnes “LLANFRECHFA” yma? Doedd dim lle ar gyfer yr un gair arall wrth i “LLANFRECHFA” feddiannu’r holl hirsgwar du uwch ben y gyrrwr. Siglodd y cerbyd swnllyd heibio lle’r oeddem yn eistedd ar y gwair. Methais weld y cefn oherwydd y mwg du a’r haenen drwchus o fwd.

I rywun ifanc o Surrey, roedd y profiad syml o fws lliw estron ynghyd â’r gair gwbl estron yn rhan o’r addasiad ar gyfer dod i fyw mewn gwlad estron. “Please can you tell me what was on the front of that bus?” gofynnais yn obeithiol. Trwy lwc roedd un o’r grŵp yn dod o Ruthun. Yn araf ac yn eglur ynganodd y gair a finnau’n ei ail- adrodd.

Daeth llawer o eiriau wedi hynny pan gyfarfûm â gŵr ifanc oedd yn derbyn hyfforddiant ar ddulliau o gyflwyno ail iaith. Fi oedd ei *guinea pig* cyntaf. Cafwyd gwersi pellach yn cynnwys brawddegau gwefreiddiol, fel “Mae gwydr ar y bwrdd” ac “Mae cwrw yn y gwydr” yn ein hystafell ddosbarth yn nhafarn y “Bull” yng Nghaerllion.

Ymhen pedair blynedd daeth mwy o eiriau i’r rhan wrth baratoi ar gyfer lefel ‘O’, yna mynychu ac wedyn priodi yng nghapel Minny Street, Caerdydd, a chanu bob nos Wener yn nhafarn y “New Ely”. Rhywle yng nghanol yr holl wersi roedd y penderfyniad tyngedfennol i siarad Cymraeg gyda’n gilydd drwy’r amser. Doedd hynny ddim yn benderfyniad rhwydd i rywun oedd ddim hyd yn oed yn gallu darllen enw ar flaen bws bedair blynedd ynghynt.

Mae’r rhan fwyaf o ddysgwyr yn dechrau gyda rhywbeth synhwyrol, fel “Bore da”, “Diolch”, neu hyd yn oed “Siwd mae”, ond fy ngair cyntaf i yn y Gymraeg oedd “LLANFRECHFA” – byddai’n braf o beth petawn i’n ymweld a’r lle rywbryd!

Clwb Llyfrau Cwmni – Llyfr Glas Nebo gan Manon Steffan Ros

Mae Manon Steffan Ros wedi cael llwyddiant ysgubol gyda’r stori ôl-apocalyptaidd yma. Ychydig dros wythnos ar ôl iddi ennill Y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol 2018, roedd yr argraffiad cyntaf wedi gwerthu mas. Wedyn aeth hi ymlaen i gipio gwobr Llyfr y Flwyddyn 2019, Gwobr Barn y Bobol Golwg360 a Gwobr Ffuglen Prifysgol Aberystwyth. Felly, roedd yn hen bryd i ni ei thrafod hi yn ein clwb darllen.

Mae’r nofel fer yma yn sôn am Rowenna, ei mab Siôn a’i merch fach, Dwynwen, sy’n ceisio goroesi ar ôl trychineb niwclear laddodd bron pawb arall yn yr ardal. Mae’r fam a’r mab yn defnyddio’r llyfr nodiadau glas i adrodd stori eu bywydau ar ôl “Y Terfyn”, ac mae Siôn yn ei alw fe’n “Llyfr Glas Nebo” yn nhraddodiad Llyfr Coch Hergest a Llyfr Du Caerfyrddin o’r oesoedd canol. Mae’n nofel hawdd i’w darllen, er gwaetha’r pethau dirdynol sy’n digwydd.

Enillydd y Fedal Ryddiaith 2018

Llyfr
Glas
Nebo

Manon Steffan Ros

Ydych chi'n gallu dod o hyd i'r DEG gwahaniaeth rhwng y ddau lun?



T A G H W E D I O F N
 T H R W A M E R G H A W
 O F E T S W A R N E
 R Y F G A R H L I N B
 F M R N I F E H E M
 F F E O R O M G I F F A
 L I R B E I M E R D
 N N A D F G H A T O I
 G A I R H Y D D E M G W
 F Y R I O H N A W R

Mae 12 mis y flwyddyn. Allwch chi ddod o hyd iddyn nhw?

IONAWR	CHWEFOR	MAWRTH
EBRILL	MAI	MEHEFIN
GORFFENNAF	AWST	MEDI
HYDREF	TACHWEDD	RHAGFYR

Mae'r atebtion ar waelod tudalen 16

Llyfr Glas Nebo (parhad)

Mae bywydau Rowenna a Siôn yn galed ac yn frwydr o hyd ond mae'r ddau yn hynod o ddyfeisgar ac yn y pendraw yn cael blas ar y ffordd newydd o fyw. Mae'r stori yn codi cwestiynau am ein ffordd o fyw ar hyn o bryd, gyda'r holl wastraff a'n dibyniaeth ar declynnau digidol.

Cafodd rhan fwyaf darllenwyr y clwb flas ar y nofel'ma ac yn canmol arddull Manon Steffan Ros. Fel dwedodd Sonia Edwards yn ei beirniadaeth, mae'na "anwyldeb a thynnerwch a realiti noeth a cholled a dioddefaint mewn iaith sy'n perthyn i ni i gyd." Eto i gyd, roedd un o'r aelodau wedi cael siom ac yn gofyn "pwy fyddai'n yfed y dŵr llygredig, a phwy fyddai'n gallu tyfu planhigion?" ond mwynheais i'r stori, er mod i'n ymwybodol o'r ffaith byddai sefyllfa go iawn yn llawer gwaeth ac yn llawer mwy tywyll. Ac mae'na ryw beth arall i ni edrych ymlaen ato:

Mae "Llyfr Glas Nebo" yn cael ei drawsnewid i'r llwyfan. Bydd Cwmni'r Frân Wen ar daith gyda'r ddrama yn gynnar yn y flwyddyn newydd gyda pherfformiadau yn Theatr Y Sherman, Caerdydd, ac yng Nghanolfan Garth Olwg ym mis Chwefror 2020.

Jan Penney

Helo,

Fy enw i yw Llŷr ac rydw i'n gweithio i'r Sefydliad dros Faterion Cymreig. Rydym yn lansio gwefan newydd o'r enw [Deall Lleoedd Cymru](http://uwp.uksouth.cloudapp.azure.com/cy/) <<http://uwp.uksouth.cloudapp.azure.com/cy/>> (www.deallleoeddcymru.cymru) sydd wedi casglu data ar drefi Cymru ac o'n i'n meddwl falle byse hwn o ddiddordeb i'ch darllenwyr?

Fi'n gwybod bod e bach yn wahanol i'r newyddion lleol bysech chi fel arfer yn adrodd , ond o'n i'n meddwl efallai byse'r wybodaeth o werth i rywun sy'n ymddiddori yn eu hardal leol, a hefyd i unrhyw un sydd yn gweithio o fewn maes lle mae angen gwybodaeth ar drefi. Fel arfer, mae'r ystadegau yma ond yn bodoli ar lefel sirol, felly mae hi'n beth newydd i'r wybodaeth fod ar gael yn y ffordd yma.

Rydym hefyd yn casglu disgrifiadau o bob lle yng Nghymru ac rydym yn galw ar y cyhoedd i ysgrifennu pwt am eu tref i fynd ar y wefan; felly byse hi'n wych tasai un o'ch darllenwyr eisiau cyfrannu!

Gobeithio fy mod i wedi esbonio popeth yn glir ond os oes gyda chi unrhyw gwestiynau, mae croeso i chi fy e-bostio neu ffonio.

Cofion cynnes,

Llŷr Owain Wilson-Price

Cydlynnydd Cyfryngau, Cyfathrebu a Chymryd Rhan

T: 029 2048 4387

Sefydliad Dros Faterion Cymreig 56 James Street Bae Caerdydd CF10 5EZ

Beth yw Caerffili i ni?

Castell enfawr a dreigiau drwg
Sy'n rhuo'n ffyrnig a chwythu mwg.

Cloc mawr swnllyd a bysus byrlymus,
Tommy Cooper yn edrych yn hapus.

Ein sioe Nadolig yn y capel,
Ni'n canu'n swynol a'r rhieni'n dawel!

Bwyta yn McDonald's a KFC.
Mynd i'r parc i gael hwyl a sbri.

Ar y ffrâm rwy'n hoffi dringo,
Neidio a chwerthin, gweiddi a joio.

Rhedeg lawr y Llwybr Tâf
Gyda ffrindiau yn yr Haf.

Mynd ar y reids yng Ngŵyl y Caws Mawr
Digon o losin i lenwi bol cawr.

Yma mae'n nheulu caredig i
Sy'n hapus pan rwy'n helpu rownd y tŷ.



Teulu hapus a ffrindiau da,
Picnic wrth y castell yng ngwyliau'r Ha'!

Yn y coed rwy'n clywed swn yr awel
Ond yn y llyfrgell mae pawb yn dawel.

Ffrindiau da yn Ysgol y Castell,
Siarad Cymraeg – does dim byd yn well!

Dyna rai o'r pethau sy'
Yn esbonio beth yw Caerffili i fi.

Plant Ysgol y Castell



Pleser o'r mwyaf bob amser yw gwrando ar raglen Aled Hughes rhwng 8:30 a 10:00 o'r gloch bob bore o'r wythnos rhwng Llun a Gwener. Ond cafwyd gwefr arbennig o wrando ar y rhaglen ar y 27ain o Fedi. Roedd Radio Cymru wedi dod o hyd i un o gyn-ddisgyblion Ysgol Gymraeg Caerffili ac Ysgol Gyfun Cwm Rhymni – a hynny yn Awstralia.

Bydd nifer ohonom yn cofio'r efeilliaid Richards oedd yn byw yn ardal Parc Avenue, Heol Bedwas, Caerffili. Roedd y ddwy ferch, Rosalind a Lara yn athletwyr addawol dros ben. Mae Lara erbyn hyn yn byw yn Sbaen a bu Roz draw yno yn ymweld â'i chwaer yn ddiweddar. Magwyd yr efeilliaid ar aelwyd grefyddol â'r teulu'n aelodau ffyddlon yn eglwys Elim. Mae eu ffrindiau yn cofio Roz yn chwarae'r drymiau yn y capel rai blynyddoedd yn ôl. Mynychodd Rosalind, neu Roz fel mae'n ei galw ei hun erbyn hyn, Brifysgol Caerfaddon i astudio hyfforddiant chwaraeon a pherfformiad ac yna aeth aeth i'r Coleg Cerdd a Drama Cenedlaethol yng Nghaerdydd. Bu hefyd yn gweithio am gyfnod yn y ganolfan cadw'n heini, "Quest", ym Mhontypandy. Yn gantores, bu'n cystadlu yn Cân i Gymru yn 2008.

Dywed Wikipedia mai actor yw Roz oedd yn adnabyddus am chwarae rhan Kim yn "Pobol y Cwm" yn 2005. Ymddangosodd hefyd yn "Dau Dŷ a Ni" gan chwarae rhan y tiwtor ac ym mherfformiadau llwyfan "Butterfly Kiss" a "A Small Family Business". Ymddangosodd yn gystadleuydd yn ail gyfres "Gladiators" ar Sky 1 yn 2009. Mae hi hefyd wedi ymddangos mewn hysbysebion gan gynnwys rhai'r Cynulliad Cenedlaethol.

Ers hynny mae wedi symud i Melbourne, Victoria, Awstralia lle cafodd Aled Hughes a Radio Cymru afael ynddi'n ddiweddar. Yn Awstralia mae Roz yn brif Myotherapydd (Ffysiotherapydd Chwaraeon) y Western Bulldogs. Tîm yw hwn sy'n chwarae Pêl-Droed Rheolau Awstralia ac, meddai Roz, mae'n gamp boblogaidd dros ben gyda rhwng 80,000 a 100,000 yn mynychu gemau rhwng y clybiau. Dywed Roz ei bod hi'n gêm arw dros ben ac mae'r holl anafiadau sy'n digwydd yn y gemau yn ei chadw hi, fel ffysiotherapydd, yn ddigon prysur.

Mae hi hefyd wedi bod yn therapydd chwaraeon ar gyfer tîmau 7 bob ochr Cymru, Gleision Caerdydd, Dreigiau Gwent ac yn "Soft Tissue Coordinator" i'r Melbourne Rebels. Hi yw perchennog "Roz Sports" ac mae yn llysgenad ar gyfer Merched y Gorllewin.

Y cyfaill Dafydd Islwyn Huws glywodd y rhaglen gyntaf ac oedd wedi dwlu ar glywed Cymraeg rhugl a chywir Roz. Roedd y ffaith fod hyn yn dod yr holl ffordd o Awstralia yn ysbrydoliaeth, meddai.

Cysylltodd "Cwmni" â'r BBC ym Mangor i geisio manylion cyswllt Roz ond ni chafwyd unrhyw ymateb. Ond drwy chwilio yn Facebook, daethpwyd o hyd i'w ffrindiau yn yr ardal hon a diolchwn iddynt am wybodaeth ychwanegol am y ddwy chwaer. Ond, gwell na hynny, galwodd Roz yng nghartref y Golygydd un prynhawn Sul ac, fel y gallwch ddychmygu, roedd y sgwrs fywiog yn felys dros ben. Am gymeriad!

Dymunwn yn dda i'r ddwy chwaer, yn Sbaen ac yn Awstralia, gan obeithio y cawn fwy eto o wybodaeth am eu bywydau cyffrous.




Roz wrth ei gwaith


Golygydd



Roz yn rhoi triniaeth



'Steddfod '19





Os am brynu lluniau, cysylltwch ag Irfonbennett@me.com

“Taith y Siartr”

Ddeng mlynedd yn ôl, 170 o flynyddoedd ers i weithwyr y cymoedd hyn geisio ennill hawliau democrataidd trwy gyfrwng Siartr y Bobl, creodd grŵp cwiltio “Cariad” y Coed Duon ddarn arbennig i ddathlu Siartiaeth. Dyma ffrwyth eu llafur:



Gwelwch yma ac ar y clawr nodweddion ein cynefin, o'r pwll glo a'r maes rygbi i'r capel a'r eglwys ar y bryn, y côr a'r dafarn – sef “Coach and Horses” y Coed Duon, man cyfarfod y Siartwyr gynt. Thema'r gwaith yw taith o'r tywyllwch tuag at y goleuni, ac mae Pont y Siartwyr ar ochr dde y gwaith ac adeilad claerwyn Stiwt y Coed Duon yn cyfleu gobaith a goleuni democratiaeth.

Cyflwynodd y cwiltwyr eu gwaith cain i'r Stiwt yn 2009. Cafodd ei arddangos yno am ddegawd wedyn, yn dystiolaeth weladwy o grefft y cwiltwyr, ymdrechion y gorffennol a pharch y presennol tuag at ei hanes. Ond eleni, ddeng mlynedd yn ddiweddarach, penderfynodd rheolwyr y Stiwt ddychwelyd y cwilt i'w wneuthurwyr. Nid oeddynt am ei arddangos bellach.

Mawr oedd siom y cwiltwyr – a mawr oedd pryder y rhai ohonom sy'n awyddus i ddathlu hanes ein hardal ni, a'i rhan yn natblygiad democratiaeth. Ond mae cwilt “Taith y Siartr” wedi mynd ar daith ei hun, a chael croeso mewn adeilad arall ac un sydd, efallai, yn fwy perthnasol i'n cymdeithas gyfoes na'r Stiwt.

Ym mis Medi eleni, cynhaliwyd gŵyl arbennig yn y Senedd i ddathlu pen-blwydd y Cynulliad yn 20 oed. Cynhaliodd Ein Treftadaeth y Siartr, cymdeithas sy'n hybu ymwybyddiaeth o Siartiaeth, sesiwn arbennig fel rhan o'r ŵyl. Gofynnodd cwiltwyr y Coed Duon i swyddogion y gymdeithas a fyddent yn barod i gyflwyno'r cwilt fel rhodd i'r Senedd ar yr achlysur arbennig hwn – ac roeddynt wrth eu bodd yn gwneud hynny. Fel y gwelwch, roedd Llywydd y Cynulliad, Elin Jones, wrth ei bodd hefyd yn derbyn y cwilt oddi wrth Elin Jones arall, sef Is-Gadeirydd Ein Treftadaeth y Siartr.

Bydd y Siartwyr yn cael eu cofio yng Nghasnewydd eleni eto, wrth i Ein Treftadaeth y Siartr gynnal Cynnwrf Casnewydd, cyfres o ddigwyddiadau yn ystod penwythnos cyntaf mis Tachwedd. Bydd cyngherddau, cynhadledd undydd a ffilmiau ac, ar Dachwedd 2, cyfle i gerdded yng ngolau fflaglau i lawr y rhiw sy'n arwain o eglwys gadeiriol Sant Gwynllyw at westy'r Westgate, lle bu'r gyflafan waedlyd rhwng y Siartwyr a milwyr y goron. Ond eleni bydd croeso i'r ymdeithwyr yn yr hen westy, sydd bellach yn agor ei ddrysau eto ar gyfer achlysuron a drefnir gan Ein Treftadaeth y Siartr.

Y diwrnod canlynol, Tachwedd 3ydd, bydd taith gerdded i ogof ger Trefil, Tredegyr, stordy arfau'r Siartwyr ym 1839. Yna, gyda'r hwyr ar Dachwedd 4ydd, diwrnod y gyflafan, bydd seremoni syml ym mynwent yr eglwys gadeiriol. Yno y claddwyd cyrff y rhai gafodd eu lladd yn yr ymladd, mewn un bedd di-enw. Erbyn heddiw mae plac wedi ei osod yn y fynwent i'w cofio, ac yno bydd pobl yn ymgynnull bob blwyddyn i osod rhosynnau coch i gofio'r rhai fu farw wrth geisio ennill y breintiau democrataidd hynny a gymerwn mor ganiataol heddiw.

Dr Elin Jones

Colofn Dafydd Islwyn

Cyd-athrawon ag Arthur Wright, awdur *The History of Lewis School, Pengam*, cyhoeddwyd yn 1929 yn yr ysgol, oedd Tom Matthews, M.A., o 1911-1916, D. J. Williams, Abergwaun, am gyfnod byr yn 1918 a H. D. Jones o 1919 hyd 1948, athro Cymraeg. Bu Arthur Wright yn athro yn yr ysgol o 1904 hyd 1945. Yn ei gyfrol fer am Bengam gwnaeth Tom Matthews argraff ddofn ar yr ardal. Onid yw ei waith yno yn dal i gael ei drafod?



I ddysgu yn Abergwaun yr aeth D. J., “y fiaren i’n cydwybod”. Bu’n athro yn Ysgol Ramadeg y dre o 1919 hyd 1945. Wrth ddisgwyl wrth y goleuadau traffic cofiais linellau Dafydd Iwan, “Y wên na phyla amser, y fflam na ddiffydd byth. Mae’r gŵr o Rydcymerau’n fyw i ni.” Tybed a wnaeth D. J. a Dafydd ddod wyneb yn wyneb yn ystod isetholiad Caerffili yn 1968?


Dro arall cofiais i Bedwyr Lewis Jones yn ei gofiant i R. Williams Parry (1884-1956) ddeud, “Ddechrau Haf 1920 prynodd fo-to-beic Douglas; ar gefn hwnnw gallai grwydro fan hyn a fan draw - i Bengam er enghraifft, i




edrych am gyd-fyfyriwr ym Mangor o’r enw Hugh D. Jones.” Bu Bardd yr Haf yng Nghaerdydd yr eildro o Ionawr 1919 hyd Mawrth 1921. Wrth eistedd yn y bws dywedais wrth fy hun, “dyma’r ardal, ond nid dyma’r lôn”. Ni agorwyd y ‘New Road’ tan 1926. Roedd dewis o ddwy ffordd gan R. Williams Parry. Os daeth dros Fynydd Caerffili a chyrraedd Ystrad Mynach, naill ai trwy Faes y Cwmer ac i Fleur de Lis neu i fyni i Ben Pedair Heol ac i lawr i Bengam. Hoffaf feddwl iddo ddod ar hyd y gyntaf a phan gyrrhaeddodd “*Flower*” iddo gofio am Hedd Wyn. A adroddodd wrtho’i hun tybed?

“Gadael gwaith a gadael gwŷdd – gadael ffridd
Gadael ffrwd y mynydd;
Gadael dôl a gadael dydd
A gadael gwyrddion goedydd.

Onid oedd ef yn dyheu am ddychwelyd i gefn gwlad tua diwedd ei gyfnod yng Nghaerdydd? Cafodd H. D. Jones a dau athro arall ganiatâd llywodraethwyr yr ysgol i ymuno â’r *Home Guard* yn ystod yr Ail Ryfel Byd, ar yr amod eu bod yn gwasanaethu yn lleol. Un noson fe gafodd E. M. Lewis o Fochriw ei saethu yn ei goes gan un o’i gyd-aelodau o *Dad’s Army* lleol. Aethpwyd ag ef i’r ysbyty ym Merthyr.



Mae camgymeriad yng nghyfrol Ewart Smith, ‘*Lewis School, Pengam, A History*’ a gyhoeddwyd yn 2013. Dywedodd yr awdur, cyn-ddisgybl o’r ysgol, i’r bardd Cymreig Alun Lewis fod yn athro yn yr ysgol am ddeunaw mis rhwng 1937 ac 1939 pan adawodd yr ysgol i ymuno â’r fyddin! Yn ôl ei gofiannydd, John Pikoulis, fe dderbyniodd Alun Lewis alwad ffôn o’r ysgol ganol Tachwedd 1938 i ddod i ddysgu ynddi am fod un athro yn wael. Cafodd ei wneud yn athro sefydlog ym mis Tachwedd 1939. Ddydd Mercher, y 15fed o Fai 1940 gadawodd yr ysgol yn sydyn ar ôl dweud wrth y prifathro ei fod yn ymuno â’r fyddin. Bu farw ar y 4ydd o Fawrth 1944 yn India.



Yn ôl pob sôn roedd Alun Lewis yn athro poblogaidd. Mae’n siŵr bod ar y staff bryd hynny athrawon nad oedd wedi taro deuddeg â’r disgyblion fel ymhob cenhedlaeth. Oni fynegodd R. J. Rowland, Y Bala, hyn mewn englyn, ‘Clais’:

Aros mae cawod eiriau - yn y cof
Sy’n nacâd i faddau
Na syrio hwn am sarhau
Un didwyll a’i wendidau.

Ddechrau’r ganrif hon dymchwelwyd hen Ysgol Lewis, Pengam. Meysydd chwarae’r ysgol newydd sydd ar y safle. Yn 1982 y chwalwyd plaen pêl (*handball court*) yr ysgol yn ôl Medel Rhif 1, 1985, cylchgrawn yr Amgueddfa Werin.

Canlyniadau	Eisteddfod	y Cymoedd	2019
Cystadleuaeth	1af	2il	3ydd
Unawd Bl 2-4	Esyllt Gwyn Gruffudd	Saga Strand	Skye Morgans
Unawd Bl 5-6	Taia Jones	Sienna Missen	Lili Evans
Llefaru Bl 2-4	Osian Jones	Emily Rogers	-
Llefaru Bl 5-6	Mari Fflur Thomas	Geraint Barnes	Tia Huish
Unawd offerynnol Bl 6 ac iau	Alys Webb	Saga Strand	Maddie Prosser
Grwp Llefaru Bl 6 ac iau	Ysgol Gymraeg Caerffili	-	-
Cor Bl 6 ac iau	Adran Bro Taf	Ysgol Gymraeg Ynyswen	Ysgol y Lawnt / Ysgol Cwm Gwyddon
Dawnsio Gwerin Unigol Bl 6 ac iau	Mari Fflur Thomas	-	-
Dawnsio Disgo Unigol Bl 6 ac iau	Taia Jones	Megan Hewitt	Evie Ball
Dawnsio Grwp Disgo Bl 6 ac iau	Ysgol Gymraeg Ynyswen	Ysgol Gymraeg Caerffili	-
Perfformiad mwyaf addawol cynradd	Mari Fflur Thomas		
Unawd Bl 7-9	Ela Mai Williams	Lili Nel Stevenson	-
Unawd Bl 10-13	Anni Davies	Elen Morlais	Megan Evans
Llefaru unigol oedran uwchradd	Iestyn Jones	Molly Anstee	Angharad Ward-Powell
Dawnsio Gwerin unigol uwchradd	Morus Jones	Ioan Williams	-
Dawnsio Disgo Unigol Uwchradd	Ioan Williams	Maisie Bowyer	-
Dawnsio Grwp Disgo - Uwchradd	Izzy a Mali	Ysgol Gartholwg	-
Dawnsio Grwp Gwerin Uwchradd	Ela a Cadi	-	-
Unawd offerynnol Uwchradd	Efa Peak	Erin Jardine	Megan Thomas
Perfformiad mwyaf addawol uwchradd	Efa Peak		
Unawd lleisiol agored	Aled Thomas	Eloise Macey	Seren Haf McMillan
Unawd canu emyn	Lynwen John	Rhys Griffiths	Aled Thomas
Unawd sioe gerdd agored	Anni Davies	Seren Haf McMillan	Ffion Griffiths

Diolch i Mair Gwynant am ddarparu'r wybodaeth

Ymlaen i dudalen 15

Canlyniadau Eisteddfod y Cymoedd (parhad)

Cystadleuaeth	1af	2ail	3ydd
Llefaru unigol agored	Seren Haf McMillan / Carys Woolley	Rhys Griffiths	-
Grwp llefaru agored	Aelwyd Cwm Rhondda	Lleisiau Rhymni	-
Cor Ieuenctid Bl 13 ac Iau	Ysgol Bro Morgannwg	Adran Bro Taf	Aelwyd Caerffili / Ysgol Gyfun Cwm Rhymni
Deuawd Lleisiol Agored	Rhys Griffiths ac Aled Thomas	Eloise a Carys	Caleb a Ffion
Parti neu gor cerdd dant	Parti'r Efail	-	-
Parti / cor gwerin agored	Parti'r Efail	-	-
Grwp Dawnsio agored	Cysgodion - Ysgol Gyfun Cwm Rhymni	-	-
Cor Agored	Cor Bechgyn Bro Taf	Cantonwm	Cor Cwmni
Tlws Dawnsio Trwy'r Cwm	Cysgodion - Ysgol Gyfun Cwm Rhymni		
Llenyddiaeth cynradd	Beca Dwyrdd	Hawys Elen Jones	-
Llenyddiaeth uwchradd	Erin Aled	Freya Thomas	Harriet Wright-Nicholas
Limerig	Dylan Lawlor	Morgan Wright	Isabel Fairburn
Cerdd	Gaenor Jones	Seren Haf McMillan	Kelly Hanney
Englyn	Eirian Dafydd	John Lloyd	Martin Huws
Cyfres o luniau - Mor a Mynydd	Lynda Ganatsou	Jenni Jones-Annetts	Gaenor Jones
Llun unigol - Hapus	Arwen Teagle	Lynda Ganatsou	Rhian Jones

Neges sydd gennym ar gyfer y beirdd ymysg eich darllenwyr. Yr ydym (Cyhoeddiadau'r Stamp) yn bwriadu rhoi blodeugerdd o farddoniaeth at ei gilydd yn 2020, fydd yn cynrychioli yr ystod eang o farddoniaeth sy'n cael ei hysgrifennu trwy gyfrwng y Gymraeg ar y foment hon. Mae hon yn fenter gyffroes, a fydd yn cynnwys gwaith gan brifeirdd a beirdd gwlad fel ei gilydd, beirdd ifanc ac aeddfed, beirdd gyda phentwr o gyfrolau i'w henw, a beirdd sy'n cyhoeddi am y tro cyntaf un.

Rydym yn fenter gyhoeddi annibynnol, yn debyg iawn i'r papurau bro. Nid ydym yn derbyn nawdd nac arian cyhoeddus, ond mae ein llyfrau a'n cyfrolau i'w cael mewn siopau Cymraeg ar draws y wlad. Bydd y gyfrol hon felly yn cael ei hariannu gan yr elw o werthiant cyfrolau blaenorol, a thrwy ragarchebion.

Ein gobaith yw derbyn gwaith gan ystod mor eang a phosib o gyfranwyr, felly dyma wahodd eich darllenwyr i gyflwyno 1-3 o gerddi ar gyfer cael eu cynnwys yn y gyfrol. Gofynnwn eu bod yn gyrru unrhyw gerddi i'w hys-tyried atom erbyn Rhagfyr y 31ain, 2019, a byddwn yn ymateb gyda phenderfyniad golygyddol yn y flwyddyn newydd (erbyn mis Chwefror).


Mae mwy o wybodaeth i'w chael o'n gwefan (ystamp.cymru) neu trwy gysylltu'n uniongyrchol. Yr ebost ydi blodeugerdd2020.ystamp@gmail.com, neu i rai sydd well ganddyn nhw roi gwaith i'r dyn post: Y Stamp, Boderwyddon, Carmel, Caernarfon, Gwynedd, LL54 7AN.

Buasem yn ddiolchgar ofnadwy petai chi'n rhannu'r neges hon gyda'ch darllenwyr.
Grug Muse, ar ran Cyhoeddiadau'r Stamp.

Mis Tachwedd a Noson Tân Gwyllt neu Noson Guto Ffowc. Mae cerdd y mis yma yn disgrifio'r noson mewn ffordd ddiddorol sy'n llawn lluniau. Sylwch ar y pethau mae pobl yn eu gweld, eu clywed a'u harogli. Beth sy'n gwneud awyrgylch yn noson yn un hapus?

Cerdd Tân Gwyllt gan Kathy Griffiths

Rocedi'n gwibio i fyny'r awyr,
Fflamau'n cydio yn y brigau
fel tafod neidr,
Plant bach yn crïo,
a'r tân yn llenwi'r awyr â hapusrwydd,
Oglau cŵn poeth yn llenwi
fy ffroenau,
Pobl yn baldorddi ar draws
ei gilydd,
Fflam au yn tasgu i bob man,
Yr awyr fel sbloets lliwgar wedi ei beintio gan blentyn bach,
Cysgodion yn cropian ar hyd y llawr,
Y tân fel nadredd lliwgar wedi cordeddu yn ei gilydd,
Esgidiau yn suddo i mewn i'r mwd meddal,
Sŵn rocedi'n byrstio allan
i fod fel cannoedd o binnau bach,
Arogl mwg,
a choed yn llosgi,
a phlant yn gafael yn dynn
yn llaw eu rhieni,
Noson tân gwyllt,
Noson i'w chofio.



tân gwyllt : fireworks
gwibio : to dart
baldorddi : to babble
cordeddu : to twist

Guto Ffowc : Guy Fawkes
brigau : branches
tasgu : to spark
suddo : to sink

arogli : to smell
tafod : tongue
sbloets : splash

awyrgylch : atmosphere
ffroenau : nostrils
cropian : to creep

Atebion Posau'r Plant



Ffair Nadolig

Menter Iaith
Sir Caerffili

Grotto Sion Corn

Ceirw

Band Pres

Stondinau anrhegion

Bwyd a diod

Perfformiadau ysgolion

Celf a chrefft

Martyn Geraint

a llawer mwy...



Dydd Sadwrn Tachwedd 30

11:00 - 15:00

Maenordy Llancaiach Fawr Manor



Gwirfoddolwyr

A ydych chi ar gael i wirfoddoli
gyda Menter Caerffili yn ein
Ffair Nadolig eleni?

Cysylltwch am rhagor o wybodaeth

SADWRN
SIARAD

Tachwedd 30 2019

10:00-12:00

Ty gwydr Llancaiach Fawr
yn rhan o'r ffair Nadolig



TAITH I FFAIR AEAF LLANELWEDD

Dydd Mawrth Tachwedd 26 2019



Ymunwch â ni ar daith i Ffair Aeaf Llanelwedd.

Rhaid prynu tocyn mynediad eich hunain.

£5 at gost tranfnidiaeth,
cadarnhawn lleoliadau codi lleol cyn y daith.

Cysylltwch i gadarnhau lle
cyn Tachwedd 15.



bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913

Coginio

(i oedolion)

Addas i ddysgwyr a siaradwyr rhygl

Nos Lun, Rhagfyr 9 & 16

18:30-20:30

Safle Y Gwyndy, Cwm Rhymni, Caerffili

£6

y sesiwn

Cysylltwch i gofrestru a derbyn manylion y rysait cyntaf

bethanjones@mentercaerffili.cymru 01443820913



Clwb Darllen Dysgwyr Caerffili

Cyfarfod nesa: Dydd Gwener,
8fed o Dachwedd

**"Cawl" a Straeon Eraill gan
awduron amrywiol**

2 o'r gloch yn Llyfrgell Caerffili

Cyswllt: penneyje961@gmail.com

Croeso cynnes i bawb

Clwb Darllen Cwmni

Llawr Cyntaf Llyfrgell Newydd Caerffili
2:00 o'r gloch

Tachwedd 4ydd: Ysbryd yr Oes

Mari Willilams

Rhagyr 2ail: Promenâd y Gwenoliaid

Gareth W. Williams

penneyje961@gmail.com

Croeso cynnes i bawb

Bob Nos Fawrth

7:00yh

Côr Cwm Ni

Capel Bryn Seion,
Ystrad Mynach

Llyfrau'r Enfys

Facebook/Llyfraurenfys

Twitter @llyfraudefys

Vikki Alexander-07970172754

Clwb Cerdd Cwm Rhymni CYNGHERDDAU BYW yn YSTRAD MYNACH

Tachwedd 23ain Deuawd Fiolin a Gitâr

Ionawr 25ain Ensemble Llinynnol De Cymru

Canolfan Gristnogol Siloh
Perfformiadau yn dechrau am 2.30
Lluniaeth yn ystod yr egwyl
www.rhymneyvalleymusicclub.org.uk

Menter Iaith Sir Caerffili

Sesiwn Stori a Chanu i fabis



Dydd Iau
11:45—12:30
Llyfrgell Trecelyn



Dewch draw i Lyfrgell Trecelyn ar gyfer sesiwn stori a chanu Menter Caerffili. Yn rhad ac am ddim – yn addas i blant blynyddoedd cynnar (0-3 oed). Rhaid i oedolion aros gyda'r plant

Menter Iaith Sir Caerffili

Gwahoddir chi'n gynnes i ein

CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL

6:00yh

(Bwffe ysgafn i ddechrau)

Nos Fercher, Tachwedd 13eg
Neuadd Bentref Tir-y-berth,
Stryd Horner, Tir-y-Berth,
Hengoed CF82 8AJ



Fe fydd y digwyddiad yn gyfle i glywed am ein gwasanaethau diweddaraf a chael cyfle i drafod datblygiad gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn Sir Caerffili.



RSVP :

lowrijones@mentercaerffili.cymru 01443 820913


Menter Iaith
Sir Caerffili

Hanes Cwm Ni

7/11/19 Gareth Thomas


Menywod lolo Morganwg: yr
ing, ecstasi a siom

9/1/20 Rhys Jones

Traddodiadau Cymreig

6/2/20 Thomas Hughes

Dylunio'r Faner - Hanes T.H
Thomas (Arlunydd Penygarn)



Clwb Rygbi Penallta

Ystrad Mynach CF82 7EP

7:00yh

Am ragor o fanylion:

helen.young@coleggwent.ac.uk

01495 333702

Eisiau dysgu mwy am
hanes Cymru? Dewch i
wrando. Croeso i bawb.

Addas ar gyfer siaradwyr
CANOLRADD / UWCH /
HYFEDREDD / RHUGL



Merched y Wawr Cwm Rhymni



Nos Fercher, 20 Tachwedd

7:00

NOSON FLASU GWIN a CHAWS

o dan ofal yr arbenigwraig gwin
Lowri Russell. Cyfle i flasgu a dysgu
mwy am winoedd amrywiol y byd,
a blasu caws i gydfynd â nhw

Canolfan y Glowyr, Caerffili

£10 y pen

Rhaid archebu o flaen llaw trwy
gysylltu â

gaynorw555@gmail.com

07984 197629

Teithiau i'r Wladfa 2020



Dy ni hefyd yn cynnig
teithiau preifat i'r Wladfa
ac ar draws America Ladin!
Cysylltwch nawr am rhagor
o wybodaeth!

EIN TEITHIAU NESAF:

Taith y Pasg: 3 Ebrill - 17 Ebrill ~ £4595

Taith Eisteddfod Trevelin: 23 Ebrill - 7 Mai
(Cynnig cynnar ar gael) ~ £4395

HEFYD YN 2020:

Taith Amaethyddol (Mis Medi)

Taith Eisteddfod y Wladfa (Mis Hydref)

Taith Pen-blwydd Trevelin (Mis Tachwedd)



Cwrw da Cymraeg a Gwasanaeth Cymraeg



Uned B27 Ystâd Ddiwydiannol
Trefforest CF375YB

Ar agor pob dydd Gwener
09:00 – 17:00.

#Lolffest 6 ar Ebrill 6ed a'r 7fed
(12:00 – 01:00)

www.twtlol.com

01970 631737 | POST@TEITHIAUTANGO.CO.UK
WWW.TEITHIAUTANGO.CO.UK



Cysylltwch â ni ar
FACEBOOK

Teipiwch i mewn enw'r papur ac fe welwch y logo



*Dyma gyfle i chi fynegi barn..... cyfrannu darn o newyddion.....dweud jôc
ysgrifennu erthyglneu awgrymu gwelliannau*

Beth amdani?